

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022, derbyniwyd nifer o gwestiynau a sylwadau ar yr wybodaeth yr oeddem wedi ei rhannu. Rydym wedi adolygu'r holl wybodaeth honno gan ddarparu ymateb ac mae ein hymateb isod.

Dewis safle / safleoedd presennol	
Pam na ellir defnyddio/ymestyn y safleoedd presennol?	Mae'r tri safle presennol, yn enwedig Cantref a Phontsticill, wedi'u lleoli mewn cymoedd cul gyda llethrau serth sydd â llystyfiant trwm i'r dwyrain a'r gorllewin gyda'r cronfeydd casglu presennol i'r gogledd. Mae afonydd Taf Fawr a Fechan fel ei gilydd yn rhedeg i'r de ac yn gyfochrog â phob safle. Nid oes gwagle digonol yn unrhyw un o'r gweithfeydd presennol i adeiladu'r gweithfeydd trin dŵr newydd ar neu yn agos i'r safleoedd. Ni ellir dymchwel yr adeiladau presennol er mwyn codi rhai newydd am fod angen cadw'r prosesau trin dŵr o'u mewn yn weithredol 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, er mwyn darparu dŵr i gartrefi a busnesau. Mae'r safleoedd presennol hefyd yn sensitif o safbwynt treftadaeth a thirwedd a nifer o'r strwythurau presennol wedi'u rhestri, a'r tri safle fel ei gilydd yn syrthio o fewn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae statws rhestredig y strwythurau yn golygu fod newidiadau ac ymestyn yn anymarferol.
Pam y dewiswyd y safle hwn?	Rydym wedi ymgymryd ag ymchwiliad manwl er mwyn canfod y lleoliad mwyaf addas ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr arfaethedig. Mae hwn wedi cynnwys adolygiad o'r strwythur presennol a'r ystyriaeth o ddeuddeg safle posibl ar gyfer y gweithfeydd trin newydd. Yn dilyn asesiad manwl, fe wnaethom ganfod y safle arfaethedig ar dir i'r gogledd o Ferthyr Tudful, y tu hwnt i Gefnffordd Blaenau'r Cymoedd (A465) ac i'r dwyrain o Afon Taf a Threfechan. Ystyrir Fferm Gurnos fel y safle mwyaf addas oherwydd y rhesymau canlynol: • Dyma'r safle a leolir agosaf at gronfeydd dŵr presennol Pontsticill, Cantref a Llwyn-onn. Y pellaf y bo'r safle wedi'i leoli oddi wrth darddiad y dŵr, y mwyaf drud yw'r dŵr i'w gludo i gwsmeriaid. • Mae uchder y safle o'i gymharu â mwyafrif y cwsmeriaid yn lleihau allyriadau carbon o'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â phwmpio'r dŵr i gyflenwad y cwsmeriaid. • Mae'r safle yn ddigon mawr i ddatblygu'r gweithfeydd newydd a'r tanc storio'r dŵr wedi'i drin, gan adael llain glustogi er mwyn cynnwys amrywiaeth ecolegol ac i leihau effeithiau gweledol. • Mae'r agosrwydd at y prif rwydwaith dŵr presennol yn ein caniatáu i ailddefnyddio pibellau presennol gan leihau faint o bibellwaith newydd fydd ei angen i adeiladu. Mae hwn yn lleihau yn sylweddol yr aflonyddwch adeiladu a'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gosod pibellau â diamedr llydan. • Mae'r safle, er ei fod yn gyfagos, wedi'i leoli y tu allan i ardaloedd tirwedd, ecolegol a threftadaeth sydd wedi'u dynodi'n rhwyngwladol ac yn genedlaethol. • Tra bo'r safle yn syrthio o fewn Ardal Tirwedd Arbennig, mae y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**A ystyriwyd lleoliadau eraill?
Beth oedd y meini prawf
dros ddewis y safle hwn?**

- Mae'r safle yn osgoi ardaloedd sydd wedi'u dynodi at bwrpas cymunedol a chymdeithasol megis parciau a chyrsiau golff. Gellir cadw at y cysylltiadau o lwybrau troed a cheffyl ar draws y safle.
- Nid yw'r safle wedi'i neilltuo at waith neu dai, ac nid yw'n dod o dan ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd arall megis mwyngloddio.

Do, bu ystyriaeth drylwyr o'r opsiynau cyn dewis y safle. Canfuwyd 12 lleoliad yn wreiddiol a oedd â phosibilrwydd o leoli y gwaith trin dŵr newydd. Bu'r meini prawf isod yn sylfaen i'r dewisiadau cychwynnol i ganfod lleoliadau posibl.

Cymal

Meini Prawf

Cymal 1: Diffinio Ardal yr
Ymchwiliad

- Yr angen i integreiddio'r datblygiad oddi mewn i'r brif rwydwaith trin dŵr, wedi'i drin a heb ei drin, er mwyn osgoi y gwaith adeiladu a pheiranyddol sy'n gysylltiedig â gwaith pibellau hir a newydd gan ddefnyddio'r strwythur presennol cymaint â phosibl. Hefyd yr angen i osgoi aflonyddu ar y gwasanaethu presennol cymaint â phosibl.
- Osgoi ardaloedd poblog er mwyn darparu lleoliad o faint digonol er mwyn galluogi i'r gwaith gweithredu fel bo'r angen.
- Cyfyngiadau topograffig, gan gynnwys yr angen am safle adeiladu eang gyda thopograffi gymharol wastad.

Cymal 2: Canfod
Safleoedd Posibl

- Osgoi adeiladau ac ardaloedd trefol.
- Lleihau'r effaith ar safleoedd wedi'u dynodi i amcanion ecolegol, tirwedd a threftadaeth.
- Osgoi ardaloedd o orlifdir.
- Lleihau'r pellter o'r brif system ddŵr bresennol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r pibellau presennol.
- Lleihau effaith traffig adeiladu ar ffyrdd lleol.
- Canfod topograffi addas.
- Canfod safleoedd gydag uchder addas er mwyn lleihau pwmpio.

Pam na ellir defnyddio safle tir llwyd?

Bydd y gweithfeydd trin dŵr newydd yn darparu triniaeth dŵr ynghyd â storfa ar gyfer oddeutu 400,000 o bobl. Mae hyn yn galw am safle eang. Mae angen hefyd i'r safle gael ei leoli yn gymharol agos at gronfeydd dŵr Cantref, Llwyn-onn a Phontsticill ac ar uchder nad yw'n rhy uchel nac yn rhy isel i'r cronfeydd dŵr hyn. Os yw'r safle uwchben y cronfeydd dŵr bydd angen pwmpio'r dŵr o'r cronfeydd er mwyn cyrraedd y gweithfeydd trin dŵr. Yn yr un modd, os yw'r gweithfeydd trin dŵr yn is bydd angen pwmpio'r dŵr i'r holl gwsmeriaid sydd uwchben yr uchder hwnnw. Golyga hyn fod gwahaniaethau yn uchder y gweithfeydd a'r pellter o'r cronfeydd presennol yn gallu cael effaith sylweddol ar nifer y gorsafoedd pwmpio sydd eu hangen, y defnydd o drydan, yr allyriadau carbon cysylltiedig â'r gwaith ynghyd â chost y dŵr i gwsmeriaid. Mae'r gwaith pibellau presennol o Gantref, Llwyn-onn a Phontsticill yn cydgyfeirio yn Georgetown ym Merthyr. Mae'r ystyriaethau hyn yn golygu yn ymarferol bod angen safle sydd yn eang ac i'r gogledd o Georgetown. Dim ond un safle yn cynnwys tir llwyd a ganfyddwyd a oedd yn ateb y gofynion hyn, sef Chwarel Faenor.

Yn ystod cymalau cynnar y dewis safle, ystyriwyd y safle i'r gorllewin o Trago Mills hefyd. Fodd bynnag, ar ôl ymchwil pellach roedd y safle hwn yn llai, yn is, ar bellter mawr oddi wrth y cronfeydd, ar lethr, yn agos at nifer o dai preswyl ac yn meddu ar ganiatâd adeiladu at ddefnydd hamdden. Byddai cysylltu y safle hwn i'r rhwydwaith presennol yn golygu cysylltiadau gwaith pibellau cymhleth ar draws yr A470 a thrwy ganol Merthyr, gydag aflonyddu traffig hir dymor yn fwy nac yn Fferm Gurnos. Felly ni chafodd ei ystyried yn safle amgen ymarferol.

Pam y diystyriwyd Chwarel Faenor ar y dechrau?

Er nad yw'r chwarel yn weithredol ar hyn o bryd, mae'n elwa o ganiatâd adeiladu i echdynnu a gweithio yno. Mae gan y safle cronfeydd arwyddocaol o fwynau a ganiateir, gan greu ased cwmni strategol i'r perchennog. Aethpwyd at y perchennog ar y cychwyn ond ar yr adeg honno nid oedd yn awyddus i werthu.

Mae'r safle hefyd yn gyfagos at (ac yn rhannol oddi mewn i) y Parc Cenedlaethol ar wastadedd uchel, yn gyfagos i Goedwig Cwm Taf Fechan (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), yn agos at Afon Nant y Glais ac Ogofau Nant Glais (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Nid yw felly'n osgoi'r holl gyfyngiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r safle presennol.

Pam na ystyriwyd datblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol?

Ystyriwyd posibilrwydd ehangu ac uwchraddio'r cyfleusterau presennol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ond nid oedd yn ateb gofynion y prosiect fel y disgrifiwyd uchod. Mae Parciau Cenedlaethol wedi'u neilltuo gan Lywodraeth y DU er mwyn cadw a gwella eu prydferthwch naturiol, bywyd gwylt, a threftadaeth ddiwylliannol ac i hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig gan y cyhoedd (Deddf yr Amgylchedd 1995). Yn sgil eu pwysigrwydd, bydd opsiynau ar gyfer datblygiadau seilwaith DCWW yn osgoi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol i gefnogi y statws gwarchodedig lle mae hynny'n ymarferol. Felly, pan ddaeth hi'n glir fod angen gwaith trin dŵr unigol newydd, chwiliwyd am safleoedd y tu allan i ardaloedd tirwedd a oedd wedi'u dynodi'n genedlaethol. Roedd y broses o ddewis safle, yn yr un modd, yn ceisio canfod safleoedd heb ddynodiadau ecolegol neu dreftadaeth cenedlaethol.

Pam na wnaeth Dŵr Cymru gyflwyno y datblygiad arfaethedig fel rhan o ymgynghoriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2016-2031?

Hyd ei gymeradwyo yn Rhagfyr 2019, nid oeddem yn gwybod a fyddai'r cynllun yn derbyn cefnogaeth Ofwat er mwyn bwrw ymlaen fel rhan o'r broses adolygu rheoleiddio cost. Dechreuwyd ar waith datblygu y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn Awst 2016, gyda'r Ymchwiliad i Wrandawiadau Cyhoeddus ar y Cynllun yn digwydd ym Mehefin-Awst 2019. Felly, erbyn bod y prosiect wedi derbyn cymeradwyaeth y rheoleiddiwr nid oedd cyfle i ymwneud â phroses y Cynllun Lleol.

Dylanwadir ar leoli prosiectau seilwaith mawr gan ofynion peirianyddol, fel yn yr achos hwn, lleoliad ac uchder y cronfeydd dŵr a'r cwsmeriaid. Golyga hyn fod yna lai o hyblygrwydd yn y dewis o safle nag sydd ar gyfer datblygiadau preswyl neu at ddefnydd cyflogaeth gyffredinol, ac felly nid yw safleoedd yn cael eu neilltuo yn yr un modd. Fodd bynnag, er bod ymwneud gyda'r awdurdodau cynllunio lleol bob amser i'w annog, ni fyddai'r un rhyddid i'r awdurdod cynllunio lleol i ddewis safle yn y ffordd y maent ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad hyd yn oed pe byddai'r amserlenni wedi'u cydlynu yn well.

Tirwedd, gweledol, treftadaeth

A ystyriwyd yr Ardal Dirwedd Arbennig dynodedig?

Do. Lleolir y gweithfeydd trin dŵr arfaethedig o fewn Ardal Dirwedd Arbennig Morlais a Chwm Taf Fechan sy'n cynnwys ardaloedd eang o'r ardal o'r gogledd o'r A465 ynghyd ag ardaloedd llai i'r de o'r A465. Mae'r dynodiad hwn yn cael ei ystyried yn holl gymalau'r cynllun. Rydym yn ymgymryd ag Asesiad Effaith Gweledol a Thirwedd cynhwysfawr, gyda'n hymgynghorwyr tirwedd yn gweithio'n agos â'n pensaer, peirianwyr, ecolegwyr, arbenigwyr treftadaeth ac arbenigwyr eraill i greu cynllun sy'n lleihau effeithiau tirwedd lle bo hynny'n bosibl ac sy'n cynnig mesurau i leihau effeithiau lliniaru. Rydym yn ceisio:

- cadw ac atgyfnerthu nodweddion tirwedd presennol lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft trwy ailsefydlu gwrychoedd diraddedig a ffiniau caeau;
- sicrhau isafswm uchder a dimensiynau gweithredol adeiladau;
- sicrhau haen isel lloriau er mwyn suddo adeiladau i mewn i dopograffi tonnog y safle;
- lleihau'r angen am oleuni allanol;
- dewis y deunydd adeiladu priodol yn ofalus; a
- chreu cynllun gwrthgloddiau a phlannu er mwyn hyrwyddo integreiddio ac adlewyrchu nodweddion a chymeriad presennol y dirwedd oddi amgylch.

A ystyriwyd yr effaith ar olygfannau o Bontsarn, Trefechan a Chastell Morlais?	Do, ac fe fydd y golygfeydd hyn yn parhau i gael eu hystyried wrth i'r cynllun esblygu. Rydym yn cydnabod y bydd gan y gweithfeydd trin dŵr arfaethedig effaith ar y golygfeydd presennol. Fe fydd yr asesiad ar effaith gweledol a thirwedd yn cynnwys asesiad o'r effeithiau gweledol posibl o nifer o leoliadau, gan gynnwys Clos Pontsarn, Trefechan a Chastell Morlais. Bydd ffotogyfosodiadau yn cael eu paratoi ar gyfer y lleoliadau hyn ynghyd â Gwarchodfa Natur Taf Fechan, Traphont Pontsarn a Chefn Cil-Sanws.
A yw'r effaith ar gymeriad, hunaniaeth Pontsarn, Trefechan a'r ardal gyfagos yn cael ei ystyried?	Rydym yn ceisio lleihau effeithiau gweledol trwy: • addasu cynllun y gweithfeydd trin dŵr er mwyn symud adeiladwaith o'r caeau mwyaf gogleddol, cynyddu'r pellter o'r eiddo preswyl agosaf yn Clos Pontsarn gan bron i 100m a thu ôl i'r llinell presennol o goed (mae hwn yn newid a wnaed cyn yr ymgynghoriad anstatudol); • plannu cyson o goed a choetir, yn enwedig i'r gogledd a'r gorllewin o adeiladwaith y gweithfeydd trin dŵr, er mwyn sicrhau ei fod yn llai amlwg o Glos Pontsarn, Trefechan a'r llwybrau hamdden cyfagos; • cynllun gwrthgloddiau i gynorthwyo integreiddio i'r dirwedd, lleihau yr argraff o faint a gwella effeithiolrwydd plannu er mwyn cysgodi; ac • ystyriaeth ofalus o ffurf adeiladu, proffil, deunydd a lliw er mwyn cynorthwyo integreiddio ac adlewyrchu cyd-destun y dirwedd oddi amgylch. Ydy, ac mi fydd yr effeithiau hyn yn dal i ddylanwadu ar gynllun terfynol y prosiect. Roedd yr effaith ar drigolion wedi dylanwadu ar y penderfyniad i osgoi datblygiad yn y caeau mwyaf gogleddol mor bell ag oedd yn bosibl er mwyn cynyddu y pellter oddi wrth drigolion Clos Pontsarn a chyfyngu datblygiad yn ardaloedd mwyaf uchel y safle. Dangoswyd absenoldeb datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol. Mae'r Asesiad Gweledol Effaith a Thirwedd yn cynnwys canfod a diffinio'r Ardaloedd o Gymeriad Tirwedd ar yr hwn y bydd yr asesiad tirwedd manwl yn cael ei seilio. Mae hwn yn nodi'r cyfyngiadau unigol a phatrymau nodweddion - megis topograffi, maint, llystyfiant, defnydd tir, patrymau o dai ac anheddau, a'r rhinweddau canfyddiadol - sy'n gwneud mathau o dirwedd yn unigryw. Mae nodweddion presennol y dirwedd ynghyd â'r asesiad o effeithiau posibl o'r gweithfeydd trin dŵr arfaethedig yn cynorthwyo yr ymagwedd cynllunio parhaus a mesurau lliniarol posibl. Er enghraifft, mae hwn yn dylanwadu ar y cynllun adeiladu terfynol a'r dewis o ddeunyddiau.
A yw'r effeithiau ar y Dirwedd o Bwysigrwydd Hanesyddol ac Archeolegol Arbennig sensitif yn cael eu hystyried?	Ydyn. Gwneir asesiad manwl o dreftadaeth ddiwylliannol fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) sy'n cynnwys pob agwedd o'r amgylchedd hanesyddol.

Gwneir Asesiad o Arwyddocâd Effaith Datblygiad yn y Dirwedd Hanesyddol sy'n edrych yn benodol ar effeithiau posibl ar Dirluniau Hanesyddol Cymreig yn unol â Chanllaw Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw).

Rhoddir hefyd ystyriaeth i effeithiau posibl ar Henebion Cofrestredig, megis Castell Morlais, gan gynnwys effeithiau ar olygfeydd allweddol. Mae'r cynllun yn esblygu trwy broses integredig sy'n cynnwys arbenigwyr treftadaeth, penseiri a phenseiri tirwedd er mwyn sicrhau bod effeithiau yn cael eu lleihau trwy faint, deunyddiau, cynllun a deunyddiau, ar y cyd â lliniaru tirwedd.

Traffig/Mynediad	
Ble y lleolir y fynedfa i'r safle yn ystod adeiladu a gweithio ar y safle?	Nid yw mynediad y safle eto wedi'i chadarnhau. Mynegwyd ffafriaeth gref yn ystod yr ymgynghoriad y dylai mynediad i'r safle ddod o'r de yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn arbed traffig adeiladu rhag defnyddio ffordd Pontsarn o ogledd y safle. Rydym yn nodi'r adborth hwn wrth benderfynu ar y ffordd fynediad orau. Mae Bryn y Sanatoriwm yn anaddas ar gyfer cerbydau adeiladu trwm, felly nid oes argymhelliad i'w ddefnyddio fel y brif fynedfa yn ystod adeiladu. Bydd tanffordd Lôn Goitre sydd ar hyn o bryd yn rhedeg o dan yr A465 presennol i'w chau fel rhan o waith ar Ffordd Blaenau'r Cymoedd. Hoffem greu mynediad gan ddefnyddio trefniadau arfaethedig y gyffordd/cylchdro oddi ar yr A465 newydd, ond bydd angen cytundeb gyda thirfeddianwyr, Cyngor Merthyr, Llywodraeth Cymru a datblygwyr cynllun lledu ffordd yr A465. Felly, nid ydym eto yn gallu cadarnhau y ffordd fynediad gyda sicrwydd. Ceisiwn leihau'r effaith ar goed, ecoleg, gweithgarwch fferm, y llwybr ceffyl a'r cyfleuster preswyl presennol gyda'r cynllun lle bo'n bosibl. Efallai y bydd angen am fynedfa o'r gogledd un ai ar gyfer mynediad brys neu yn ystod y cyfnod gweithredu. Mae hwn eto i'w gadarnhau.
Sut yr ystyrir diogelwch cerddwyr, beicwyr a marchogion ceffyl gyda golwg ar y traffig ychwanegol a fydd yn cael ei greu?	Rhoddir ystyriaeth i greu mynediad o Ffordd Blaenau'r Cymoedd i'r de o'r safle fel y gall traffig teithio ar llwybrau sy'n lleihau yr effaith ar Ffordd Pontsarn i'r gogledd. Fe baratuir Cynllun Rheolaeth Traffig Adeiladu er mwyn rheoli traffig yn ystod y cyfnod adeiladu ac i lywio traffig i'r llwybrau mwyaf addas i'r safle ac i ffwrdd oddi wrth y rhai sy'n cael eu defnyddio yn fwy aml gan gerddwyr, beicwyr a marchogion ceffyl. Yn ystod y cyfnod gweithredol mi fydd cyfyngu cymharol ar y traffig i'r safle.
A fydd hawliau tramwy cyhoeddus/llwybrau ceffyl presennol yn ardal y safle yn cael eu hystyried?	Cydnabyddwn fod Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau ceffyl yr ardal yn llwybrau hamdden pwysig i'r gymuned leol. Mae'r llwybrau hyn wedi eu nodi a'u mapio, gyda dyluniad y cynllun ar bob cymal yn ceisio lleihau yr effaith ar y llwybrau hyn. Mae'r effaith ar y ffyrdd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol a gynhelir i asesu effaith y datblygiad. Mae'r ffyrdd ar hyd dwy ochr Taf Fechan i Bontsarn y tu allan i ffin y safle arfaethedig ac nid oes awgrym i'w cau neu eu gwyro gan ein gwaith. Cynllunnir y tirlun gyda golwg ar leihau effaith gweledol y datblygiad o'r llwybrau hyn yn ogystal. Mae'r llwybr ceffyl i'r dwyrain o'r coetir hynafol ar gau ar hyn o bryd oherwydd cynllun Blaenau'r Cymoedd. Wedi'r adeiladu mae ar ddeall y bydd y llwybr ceffyl hwn yn cael ei wyro gan gynllun Blaenau'r Cymoedd gyda'r llwybr terfynol heb ei gytuno eto rhwng y datblygwyr a Chyngor Sir Bwrdeistref Merthyr Tudful. Rydym yn cydnabod gwerth y llwybr ceffyl hwn i'r gymuned a bwriadwn leihau effaith y gwaith trin dŵr newydd ar y llwybr pan ddaw yn glir sut a lle y bydd yn cael ei adfer.

Yn yr un modd, fe fydd y warchodfa natur a'r pwll glas yn aros yn hygyrch gan ddefnyddio'r llwybrau presennol ar ddwy ochr Taf Fechan.

Efallai y bydd angen cau dros dro neu ddargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn gosod piblinellau a gollyngfeydd, ond byddai y rhain yn rhai tymor byr ac ystyrir cau mewn achosion lle na fyddai dargyfeirio yn bosibl.

Effeithiau Amgylcheddol y Cynllun yn ystod Adeiladu a Gweithredu	
Sut mae effaith gynyddol y prosiectau adeiladu eraill yn cael ei hystyried?	Mae asesiad cynyddol o'r gweithfeydd trin dŵr arfaethedig gyda phrosiectau eraill ar waith fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol ac fe fydd yn cynnwys prosiectau sydd yn debygol o fod ar waith ar yr un pryd a'r gweithfeydd trin dŵr arfaethedig. Bydd unrhyw gorgyffyrddiad posibl rhwng ein prosiect a Gwaith Gwelliant yr A465 yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad cynyddol er na fydd adeiladu ar y gwaith trin dŵr newydd yn cychwyn hyd o leiaf 2024, gall y gorgyffyrddiad fod yn gyfyngedig.
Beth fydd yr oriau gweithio yn ystod yr adeiladu?	Byddai'r oriau gweithio craidd yn debygol o fod o 08:00 i 18:00 ar ddyddiau gwaith (ac eithrio gwyliau banc) ac o 08:00 i 13:00 ar ddydd Sadwrn. Gellir cwtogi'r oriau gwaith gan ddefnyddio cyflwr cynllunio o'i gymhwyso i'r caniatâd os yn angenrheidiol. Byddai unrhyw weithfeydd sydd yn syrthio y tu allan i'r amserau a gytunwyd i'w cytuno ymlaen llaw gyda'r Cyngor perthnasol.
Pa oriau y bydd y safle yn gweithio pan yn weithredol?	Bydd y gwaith trin dŵr yn weithredol 24/7.
Am ba hyd y bydd yr adeiladu?	Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd adeiladu'r gwaith trin dŵr arfaethedig yn parhau am oddeutu 48 mis.
A fydd ffyrdd yn cael eu cau yn ystod adeiladu'r prosiect?	Mae'n debygol y bydd rhannau o'r prosiect yn galw am gau ffyrdd yn rhannol neu dros dro lle rydym yn bwriadu ymgymryd â gosod pibellau yn y ffordd fawr neu yn agos ati. Adroddir anghenion o'r math yn ein Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu. Gan dderbyn y bydd gweithfeydd trin dŵr newydd bob amser yn galw am waith pibellau newydd mae cau ffyrdd dros dro yn debygol o fod yn anochel mewn unrhyw ddewis o safle.
Beth fydd effeithiau sŵn yn ystod yr adeiladu a gweithredu?	Mae asesiad sŵn a chryndod ar waith ar hyn o bryd fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) a fydd yn ystyried: • Sŵn a chryndod o ganlyniad i weithgareddau adeiladu ar safle'r gweithfeydd trin dŵr newydd arfaethedig a'r seilwaith ategol arfaethedig; • Newidiadau yn sŵn traffig o ganlyniad i'r traffig adeiladu; • Effeithiau ar dderbynwyr sensitif cyfagos (megis eiddo preswyl) o ganlyniad i sŵn oddi wrth y gweithfeydd trin dŵr newydd arfaethedig; ac

- Asesiad ansawdd buddiannau sŵn yn sgil cau y tri gwaith trin dŵr presennol.

Bydd gan ein cais cynllunio Cynllun Amlinelliad Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu a fydd yn gosod y mesurau i'w mabwysiadu gan y contractwr a apwyntir er mwyn osgoi, lleihau a rheoli lefelau o sŵn a chryndod andwyol trwy'r ymarfer gorau, gan gynnwys: dewis o offer distaw a chryndod isel, lleoliad offer ar y safle, rheoli oriau gwaith, darparu ardaloedd caeedig acwstig ynghyd â sgrinio lleol o offer neu ffensio perimedr. Bydd angen i'r contractwr a apwyntir gynnig Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol manwl i'r Cyngor lleol perthnasol am gymeradwyaeth cyn dechrau adeiladu. Yn ystod y gweithredu, bydd y rhan fwyaf o'r peiriannau wedi'u cau mewn adeiladau a fydd yn lleihau sŵn allanol.

Pa effaith fydd gan yr adeiladu ar ddynodiadau ecolegol gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), coedlan hynafol, y Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCN) gerllaw ynghyd â'r warchodfa natur leol?	Mae asesiad cynhwysfawr o ecoleg ddaearol a dyfrol ar waith ar hyn o bryd fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EAE) sy'n ystyried effeithiau posibl ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCN) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI) ynghyd â rhywogaethau a chynefinoedd ecolegol sensitif. Cytunwyd ar raglen o arolygon ecolegol gydag Ecolegydd y Sir a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dechreuwyd y rhain yng ngwanwyn 2021 ac maent yn parhau. I leihau effeithiau, bwriadwn gynnal tir clustog 30m rhwng Coeddir Cwm Taf Fechan SDdGA a'r gweithfeydd parhaol ar y gweithfeydd trin dŵr newydd arfaethedig. Gellir plannu'r tir clustog gyda rhywogaethau cynhenid priodol i gyd-fynd â'r SDdGA ac fe fydd yn cael ei ddangos ar Gynllun Tirlun i'w gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal tir clustog o 15m o amgylch ardaloedd o goedlan hynafol gan osgoi effeithio ar hen goed. Rydym hefyd yn osgoi'r SBCN a'r warchodfa natur leol ac yn bwriadu lleihau unrhyw effaith gweledol neu dirwedd o'r llwybrau trwy'r ardaloedd hyn yn ystod y cynllunio a'r tirlunio. Rhestrir mesurau i osgoi unrhyw effeithiau adeiladu anuniongyrchol ar y SDdGA yn y Cynllun Amlinelliad Rheoli Adeiladu Amgylcheddol (CCARAA) i'w gyflwyno gyda'r cais cynllunio.
Sut y rheolir perygl llifogydd o'r safle?	Yn unol â Pholisi Cyngor Technegol Cynllunio Cymru Nodyn 15: Datblygiad a Risg Llifogydd (TAN 15) 2004, mae yna Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLI) ar waith a fydd yn amlinellu sut y rheolir risg llifogydd o'r safle.
Sut y rheolir y dŵr wyneb yn llifo o'r datblygiad? A fydd hwn yn llifo i'r afon neu'r SDdGD?	Mae Strategaeth Ddraenio yn cael ei ddatblygu ar gyfer y safle gweithfeydd trin dŵr newydd arfaethedig yn unol â Safonau Cymru ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SSDC). Y bwriad yw mabwysiadu mesurau SSDC i gyrraedd graddau dŵr ffo maes glas cyn trawsgludo trwy sianeli draenio presennol i Daf Fechan. Y bwriad fydd amddiffyn cwrs y dŵr rhag effeithiau difrod ecolegol, morffolegol ac ansawdd dŵr.

A ddaw unrhyw arogl drwg o'r gweithfeydd trin dŵr?	Mae hwn yn waith trin dŵr glân yn hytrach na dŵr budr. Felly, nid oes unrhyw weithgareddau neu brosesau ynghlwm â'r broses trin dŵr arfaethedig a fyddai'n arwain at allyriadau arogl arwyddocaol.
Faint o staff fydd ar y safle pan fydd y safle'n weithredol?	Byddai oddeutu 8 – 12 o staff yn gweithredu'r gwaith trin dŵr newydd unwaith mae wedi'i gwblhau. Darperir parcio ar gyfer staff ac ymwelwyr ar y safle.

Ymgynghoriad	
A ymgynghorwyd â Chyngor Sir Bwrdeistref Merthyr Tudful (CSBMT), Awdurdod Cenedlaethol Parc Bannau Brycheiniog (ACPBB) ynghyd a chyrrff statudol eraill?	Do. Dechreuwyd ymgynghori gyda'r pedwar awdurdod lleol oedd yn cael eu heffeithio yn Chwefror 2021 ac mae wedi parhau oddi ar y dyddiad hwnnw. Yn benodol, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyngor Sir Bwrdeistref Merthyr Tudful (CSBMT) ynghylch y cynllun gan gynnwys cyfarfodydd ar y safle. Cynhaliwyd cyfarfodydd llai cyson gyda'r tri awdurdod lleol arall gan fod llai o seilwaith yn effeithio ar eu hardaloedd. Cyn yr ymgynghoriad anstatudol, fe wnaethom gysylltu â CSBMT ac Awdurdod Cenedlaethol Parc Bannau Brycheiniog (ACPBB) i geisio eu barn ar faint yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) y byddai angen i ni wneud. Roedd CSBMT ac ACPBB wedi ymgynghori â chyrrff statudol wrth ddatblygu eu hymateb (adnabyddir fel 'barn ceisio maint'). Roedd hwn hefyd yn cynnwys ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sir Caerffili (CBSC) a Chyngor Bwrdeistref Sir Rhondda Cynon Taf (CBSRCT), a chytunwyd y dylai Merthyr arwain y broses ceisio maint. Mae'r cais ar gyfer AEA i geisio barn yn rhan gynnar yn y broses cynllunio gan ein galluogi i gytuno ag awdurdodau cynllunio lleol ar yr wybodaeth fydd angen fel rhan o unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol. Ymgynghorwyd â'r holl awdurdodau cynllunio a chyrrff statudol perthnasol fel rhan o'r ymgynghoriad anstatudol. Bu trafodaethau yn parhau gyda chyrrff statudol y tu allan i'r broses hon, gan gynnwys cyfathrebu gyda Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru.
Pam na fu ymgynghori â'r cyhoedd yn gynharach?	Ein bwriad ar gyfer yr ymgynghoriad anstatudol oedd rhannu ein cynllun wrth iddo ymddangos unwaith ein bod wedi casglu digon o wybodaeth i alluogi pobl i ddeall ein cynigion, ond ar gymal digon cynnar i ganiatáu adborth yr ymgynghoriad i ddylanwadu ar y cynllun. Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad anstatudol, mae'r cynllun yn cael ei ddiwygio ac fe fyddwn yn cynnal cyfnod arall o ymgynghori cyn cyflwyno ein cais cynllunio.

Sut yr hysbyswyd trigolion o'r ymgynghoriad anstatudol?	Danfonwyd llythyrau at drigolion yn ardal y safle arfaethedig, piblinellau a'r safleoedd gwaith trin dŵr presennol. Danfonwyd llythyr ar wahân at eiddo yn agos at orsafoedd pwmpio y rhwydwaith arfaethedig. Wedi clywed nad oedd eiddo yn ardal Trefechan wedi derbyn llythyr, danfonwyd llythyr pellach i gyfeiriadau o fewn Trefechan gan ymestyn y cyfnod ymgynghori am 2 wythnos gan roi amser ychwanegol i drigolion ymateb.
	Defnyddiwyd papurau newydd lleol, datganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol, ein diweddariadau 'yn eich ardal' ac fe ofynnwyd i awdurdodau lleol ac aelodau etholedig i rannu manylion am yr ymgynghoriad trwy eu sianeli.
Pam na roddwyd mwy o amser i ymateb i'r ymgynghoriad anstatudol?	Rydym newydd gwblhau cyfnod 6 wythnos o ymgynghori anstatudol er mwyn darparu cyfle i'r gymuned leol i weld ein cynlluniau cychwynnol a chynnig sylwadau. Mae hwn wedi cynnwys cynnal digwyddiadau gwybodaeth yn lleol a chreu ystafell ymgynghori rithiol ar ein gwefan yn dangos gwybodaeth am y prosiect. Mae pobl wedi gallu cyflwyno eu sylwadau un a'i trwy ffurflenni adborth yn y digwyddiadau gwybodaeth, trwy'r ystafell ymgynghori rithiol neu drwy ein e-bostio ar y cyfeiriad e-bost arbennig. Mae cyfnodau ymgynghori ar brosiectau seilwaith mawr yn aml yn 4 i 6 wythnos felly mae'r amser a ganiatawyd yn hirach o lawer nag sy'n cael ei ganiatáu ar lawer prosiect tebyg.
	Bydd cyfleoedd pellach i bobl i gynnig eu barn wrth i ni gynnal yr ymgynghoriad statudol ar ein cais cynllunio drafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac unwaith eto wedi i'r cais cael ei gyflwyno.
Pam na wnaeth yr ymgynghoriad anstatudol ddarparu mwy o wybodaeth? Pam nad oedd mapiau yn fwy manwl?	Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin yn ymateb i'r ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Pwrpas yr ymgynghoriad anstatudol oedd rhannu ein cynllun ar gyfer y gweithfeydd trin dŵr, piblinellau a gorsafoedd pwmpio wrth iddo ddatblygu. Roedd yr wybodaeth a'r mapiau a ddarparwyd yn adlewyrchu cymal cynnar yn y cynllun, sydd yn nawr yn cael ei ddiwygio yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad anstatudol. I geisio gwir fewnbwn, rhaid bod ymgynghori yn digwydd yn ddigon cynnar i alluogi ystyried barn. Teimlwn fod gweithio'n agos cyn bod y cynllun wedi'i gwblhau yn elfen fuddiol yn amseriad ein hymgyngghoriad anstatudol.
	Byddwn yn cynnal cyfres arall o ymgynghori unwaith y datblygir yr argymhellion ymhellach, a fydd yn darparu y dogfennau cynllunio drafft a darluniau ar gyfer ymgynghori.
Pryd fydd delweddau o Bontsarn a Threfechan ar gael?	Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y golygfannau o Bontsarn a Threfechan. Ar adeg yr ymgynghoriad anstatudol, nid oedd y cynllun wedi'i ddatblygu'n ddigonol i ddangos delweddau o Bontsarn a Threfechan. Mae delweddau yn gymhleth i'w datblygu yn gywir ar gyfer datblygiad o'r natur yma, gan dderbyn bod gwelededd yn cael ei effeithio'n gryf gan ogwydd adeiladau, lefel y ddaear, cynllun, awgrymiadau tirlunio, maint adeiladau ac ati. Dewiswyd golygfa Castell Morlais am ei fod yn lleoliad o le y gallwch weld mwyafrif y safle yn hytrach na darparu'r olygfa rannol a fyddai i'w gael o Bontsarn a Threfechan.

Rydym yn diwygio ein cynllun ar hyn o bryd yn dilyn adborth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad anstatudol. Unwaith y bydd y cynllun wedi'i ddiwygio, byddwn yn cynhyrchu delweddau o Bontsarn a Threfechan a disgwyliwn allu rhannu'r rhain yn ystod Haf 2022.

A hysbyswyd aelodau etholedig o'r cynigion?	Do, cafodd yr aelodau etholedig perthnasol eu hysbysu o flaen yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r aelodau etholedig wrth i'r prosiect barhau.
Sut mae effaith y datblygiad ar les y gymuned wedi ei ystyried?	Fel rhan o'n Hasesiad Effaith Amgylcheddol, rydym yn asesu effeithiau posibl iechyd ac economaidd-gymdeithasol yn ystod yr adeiladu a'r gweithredu o'n datblygiad arfaethedig. Adroddir y casgliadau mewn drafft o'n Datganiad Amgylcheddol a fydd ar gael yn yr ymgynghoriad statudol.

Cynllun	
A ellir lleihau maint ac uchder yr adeiladau arfaethedig?	Yn dilyn yr adborth yn ystod ein hymgynghoriad anstatudol, rydym yn lleihau maint ac uchder yr adeiladau arfaethedig. Rydym hefyd yn ad-drefnu cynlluniau mewnol yr adeiladau ac yn adleoli adeiladau oddi mewn i ôl troed cyfan y safle, gan leihau eu maint, uchder a newid eu golwg.
A ellir defnyddio deunyddiau lleol a naturiol ar gyfer yr adeiladau?	Defnyddir deunyddiau adeiladu naturiol a lleol er mwyn gwneud yr adeiladau yn fwy derbyniol o fewn y dirwedd wledig bresennol.
A ellir cynllunio'r adeiladau gyda golwg ar integreiddio gyda'r dirwedd?	Rydym yn gweithio gyda phensaer tirwedd apwyntiedig Cyngor Sir Bwrdeistref Merthyr Tudful i gynnwys y cyfleoedd hyn i olwg yr adeiladau ar y tir.
A ellir cynnwys toeon gwyrdd/muriau byw?	Mae hwn yn opsiwn i ni mewn rhai lleoliadau. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl ystyriaethau hyn yn derbyn sylw gofalus fel nad yw'r broses trin dŵr yn agored i risg halogiad.
Gall y safle gynhyrchu ynni adnewyddol?	Bydd y safle newydd yn cynhyrchu peth o'i drydan ei hun, gan leihau ôl troed carbon gweithredol y broses trin dŵr gan wneud y dŵr yn rhatach i'w gynhyrchu.
A ellir claddu adeiladau o dan y ddaear/eu suddo i'r tir?	I ryw raddau mae'r lefel tir ar y safle a defnydd mesuriadau megis argloddiau yn gallu rhoi'r argraff bod yr adeiladau yn ymddangos yn is yn y dirwedd. Rydym yn ceisio gwneud hyn lle bo'n bosibl gyda'r cynllun safle a'r cynigion tirlunio. Er enghraifft, rydym wedi ceisio lleoli yr adeiladau mwyaf ar lefelau is ac i ostwng yn rhannol y tanc cadw dŵr wedi'i drin i'r ddaear. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn un seilwaith mawr. Nid yw'n ymarferol i gladdu yr holl strwythurau yn y ddaear.

Gall y datblygiad gael ei leoli yn ne'r safle, i ffinio â'r A465, i leihau effaith gweledol?

Mae'r llinellau pŵer 132kV y Grid Cenedlaethol uwchben yn gyfyngiad ar draws rhan ddeheuol y safle arfaethedig. Mae'r rhain yn llinellau pŵer foltedd uchel felly ni chaniateir datblygiad mawr o dan neu yn agos at y llinellau. Mae dargyfeirio llinellau pŵer foltedd uchel yn gymhleth ac yn ddrud iawn, ac mi fyddai angen dod o hyd i leoliad newydd ar eu cyfer, a fyddai yn dal i gyfyngu ar y safle. Felly, cynigir bod yr holl ddatblygiad yn digwydd i'r gogledd o'r llinellau hyn. Mae ôl troed yr holl ddatblygiad oddeutu 40 erw (yn ddibynnol ar gwblhau'r cynllun terfynol) o'i gymharu â chyfanswm 100 erw y safle cyfan. Mae hyn wedi ein galluogi i ddewis y lleoliad gorau ar gyfer pob adeilad ac i gynnwys cymaint o blannu a thirlunio posibl i sgrinio ac i leihau effaith gweledol y prosiect.
